

CYFARFOD	PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH
DYDDIAD	4 Ebrill, 2017
PWNC	CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU ETHOLEDIG
PWRPAS	Diweddaru'r Pwyllgor ar faterion cydnabyddiaeth ariannol a cheisio eu barn ar argymhellion i'r Cyngor newydd.
AWDUR	Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

CEFNDIR

1. Mae adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol bellach wedi ei gyhoeddi (Chwefror 2017). Bydd adroddiad y panel yn cael ei roi ar waith ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18. Bydd aelodau yn cofio i'r Pwyllgor drafod ac ymateb i'r ymgynghoriad drafft gan y Panel dros y gaeaf.
2. Erbyn hyn, cyhoeddwyd y cynigion terfynol. Dyma'r ddolen i'r dudalen lle mae modd canfod adroddiad y Panel Annibynnol.
<http://gov.wales/docs/ds/jg/publications/localgov/170223-annual-report-cy.pdf>
3. Fodd bynnag, dyma'r prif bwyntiau:-
 - a) Cynnydd o £100 yn y cyflogau sylfaenol i aelodau (codi o £13,300 i £13,400)
 - b) Nid yw'r elfen cyfrifoldeb cyflogau uwch yn cael ei gynyddu, ond bydd uwch ddeiliaid cyflog yn derbyn y codiad i'r cyflog sylfaenol.
 - c) Pob Cyngor unigol i benderfynu gosod Aelodau Cabinet ar un o ddwy lefel, Lefel 1, (£29,100) neu Lefel 2 (£26,200)
 - ch) Pob cyngor unigol i benderfynu gosod Cadeiryddion Pwyllgorau ar un o ddwy lefel, Lefel 1, (£22,100) neu Lefel 2 (£20,100)
 - d) Cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer trefniadau amgen mewn achosion o salwch hirdymor gan ddeiliaid uwch gyflogau (i gyd-fynd â rheoliadau mewn perthynas ag Absenoldebau Teuluol)
 - dd) Defnyddio'r term "ad-daliad ar gyfer costau gofal" yn hytrach na "lwfans gofal", gan ganiatáu dulliau dewisol i Gynghorau o ran cyhoeddi'r wybodaeth er mwyn annog mwy o aelodau etholedig i fanteisio ar y ddarpariaeth (heb dderbyn cyhoeddusrwydd anffafriol).

Y MATER SYDD GERBRON

4. Mae dyfarniadau'r Panel Cydnabyddiaeth Ariannol yn rhwymo Cynghorau i wneud y taliadau a bennir ganddynt. Yr unig ffordd arferol i beidio gwneud y taliadau hynny yw i aelod unigol ddatgan yn ysgrifenedig i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd nad yw am dderbyn y cyfan neu gyfran o'r taliadau.
5. Fodd bynnag, mae adroddiad y Panel yn nodi fod blwyddyn wedi mynd heibio ers i'r panel argymhell dwy lefel o gyflog ar gyfer aelodau'r weithrediaeth ac i gadeiryddion

pwyllgorau sy'n deilwng i'r uwch gyflogau. Ni fu i unrhyw awdurdod ddefnyddio'r hyblygrwydd i adlewyrchu amrywiadau yn lefel cyfrifoldeb portffolios a chadeiryddion yn ystod 2016/17 trwy gyflwyno taliadau gwahaniaethol. Roedd 20 Cyngor wedi talu ar lefel 1 a 2 ar lefel 2 ar gyfer y weithrediaeth, ac 20 Cyngor wedi talu ar Lefel 1 a 2 ar Lefel 2 ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau.

6. Gan mai am flwyddyn yn unig y mae'r drefn hon wedi bodoli, mae'r Panel yn cadw'r cyfleuster hwn ar gyfer hyblygrwydd i adlewyrchu amrywiadau yn y lefelau cyfrifoldebau yn y gydnabyddiaeth ariannol a gymhwysir i uwch swyddi penodol.
7. Wrth ystyried y mater 'llynedd', bu i'r Pwyllgor hwn argymhell i'r Cyngor fod y taliadau yn cael eu gwneud ar Lefel 1, a dyna oedd penderfyniad y Cyngor. Wrth wneud penderfyniad eleni, dylai'r Cyngor ystyried, nid yn unig ar ba lefel i osod y swyddi gwahanol ond hefyd a oes lle i wahaniaethu rhwng y cyfrifoldebau gwahanol. O ran lefel y cyfrifoldebau sydd yn cael eu hysgwyddo gan Aelodau Cabinet gwahanol, dylid nodi ein bod wedi gwneud ymdrech fwriadol, fel Cyngor, i rannu cyfrifoldebau Cabinet mor gyfartal â phosib. Dylai'r Cyngor hefyd ystyried a oes gwahaniaeth yn y cyfrifoldebau a ysgwyddir gan y Cadeiryddion Pwyllgorau a nodir isod ac, yn wir, gadeiryddion rhai pwyllgorau eraill sydd ddim yn derbyn cydnabyddiaeth arbennig, fel y Pwyllgor Apellau Cyflogaeth, y Pwyllgor Iaith a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd.
8. Yn ogystal ag ystyried y lefelau, rhaid i'r pwyllgor gofio bod cyfyngiad ar y nifer o uwch-gyflogau y mae modd eu talu. Y cyfyngiad ar gyfer Gwynedd yw 18 ac, ar sail penderfyniadau blaenorol y Cyngor, fe'u telir i'r canlynol:-
 - Arweinydd
 - Dirprwy Arweinydd
 - 8 aelod arall o'r Cabinet
 - Arweinydd yr Wrthblaid mwyaf
 - Y Cadeiryddion a ganlyn:-
 - Pwyllgor Craffu (x3)
 - Pwyllgor Archwilio
 - Pwyllgor Cynllunio
 - Pwyllgor Trwyddedu
 - Pwyllgor Pensiynau

Oherwydd yr asesiad cyfrifoldebau hynny, ar hyn o bryd, mae pob Aelod Cabinet ar Lefel 1 ac mae'r holl Gadeiryddion Pwyllgorau uchod yn cael lefel 1 o ran taliad.

ARGYMHELLIAD

9. Ceisir barn y Pwyllgor er mwyn cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor llawn, ynglŷn â'r hyn y dylid ei dalu ym mlwyddyn gyntaf y Cyngor newydd gan awgrymu, efallai, y dylid cynnal arolwg o lwyth gwaith cadeiryddion ym mlwyddyn gyntaf y Cyngor newydd i weld a oes lle i amrywio'r penderfyniad neu ail-ystyried y lefelau cyflog ym mhen y flwyddyn.